

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Pwyllgor Moeseg a Safonau

Dyddiad y Cyfarfod: 15 Tachwedd 2023

Teitl: Cynlluniau hyfforddiant Cyngor Tref a Chymuned

Pwrpas yr adroddiad: Er gwybodaeth

Gofynnodd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn 2022 i swyddogion goladu'r cynlluniau hyfforddi ar gyfer Cyngorau Sir a Thref a oedd yn rhaid eu cynhyrchu a'u cyhoeddi erbyn 5/11/22 o dan A67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

67 Cynlluniau hyfforddi cyngor cymuned

- (1) Rhaid i gyngor cymuned greu a chyhoeddi cynllun ("cynllun hyfforddi") gan nodi ei gynigion mewn perthynas â darparu hyfforddiant ar gyfer-
 - (a) cynghorwyr y cyngor cymuned, a
 - (b) staff y cyngor cymuned.
- (2) Rhaid i gyngor cymuned wneud ei gynllun hyfforddi cyntaf ddim hwyrach na chwe mis ar ôl y dyddiad y daw isadran (1) i rym.
- (3) Rhaid i gyngor cymuned wneud cynllun hyfforddi newydd heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl pob etholiad cyffredin o gynghorwyr cymuned i'r cyngor.
- (4) Rhaid i gyngor cymuned adolygu ei gynllun hyfforddi o bryd i'w gilydd.
- (5) Os yw cyngor cymuned yn adolygu neu'n disodli ei gynllun hyfforddi, rhaid iddo gyhoeddi'r cynllun diwygiedig neu'r cynllun newydd.
- (6) Nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i swyddogaethau cyngor cymuned o—
 - (a) pennu cynnwys cynllun hyfforddi neu unrhyw gynllun diwygiedig, a
 - (b) adolygu'r cynllun hyfforddi.
- (7) Rhaid i gyngor cymuned roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau o dan yr adran hon.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau hyfforddi gael eu gwneud a'u cyhoeddi erbyn 5 Tachwedd 2023.

Ysgrifennodd Swyddogion Safonau'r Cyngor at y Cyngorau Tref a Chymuned ar 21 Rhagfyr 2022 yn gofyn am gopi o gynllun hyfforddiant eu Cyngor erbyn 2 Ionawr 2023. Adroddwyd hyn ddiwethaf i'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2023.

Roedd 13 o Gyngorau Tref/Cymuned wedi rhannu eu cynlluniau hyfforddi ar hyn o bryd.

Mae 5 cynllun hyfforddi pellach wedi dod i law, cyfanswm o 18.

Mae hyn yn gadael 33 o Gyngorau Tref / Cymuned nad ydynt wedi ymateb a/neu ddarparu eu cynlluniau hyfforddi i'r Cyngor

Y sefyllfa bresennol

Mae cynnwys y cynllun hyfforddi i'r graddau y mae'n cyfeirio at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor asesu anghenion hyfforddi Cyngorau Tref / Cymuned.

Ceisir barn y Pwyllgor yn awr ar weithredu yn y dyfodol.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor: N/A

Cydweithio: N/A

Cynnwys: N/A

Atal: N/A

Integreiddio: N/A

Argymhellion:

- I. Bod e-bost yn cael ei ddanfôn at yr holl glercod i'w hatgoffa bod yn rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi, ac i roi cais bod y cynlluniau'n cael eu danfon i Gyngor Sir Ceredigion.
- II. Ystyried a ddylai'r Cyngor gael cynllun monitro.

Enw Cyswllt: Lisa Evans

Teitl Swydd: Swyddog Craffu a Safonau

Dyddiad yr Adroddiad: 26/10/23

Acronymau: